Dyheu · Dysg · Daioni

# Grant Datblygu Disgyblion (GDD) 2025-26

## Ysgol Gyfun Gymraeg Cwm Rhondda

Mae'r datganiad hwn yn manylu ar ddefnydd ein hysgol o'r Grant Datblygu Lleol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/2026. Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd yn ein hysgol.

**Trosolwg ysgol**

| Manylion | Data |
|---|---|
| Ysgol Gyfun Gymraeg Cwm Rhondda | Ysgol 11-18 oed |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 650 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy’n gymwys i’r GDD | 13.1% |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | Ebrill 2025 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | Ebrill 2026 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Y Prifathro a’r Corff Llywodraethu |
| Yn arwain ar y GDD | Prifathro / UDA |
| Llywodraethwr sy’n arwain | B. Cradle (Cadeirydd) |

**Trosolwg cyllid**

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad staffio | £ 93,483.31 |
| Dyraniad di-staffio | £13,466.69 |
| Dyraniad cyllid y grant y flwyddyn academaidd hon | **£106,950** |
| Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon | £4,006,567 |

**Cynllun Strategol**

Mae'r GDD wedi'i gynllunio i gefnogi gwella canlyniadau'r ddarpariaeth, cymorth a dysgu i fyfyrwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd). Yn y modd hwn bwriedir i'r GDD helpu i oresgyn y rhwystr ychwanegol hwn sy'n atal plant mwy agored i niwed rhag cyflawni eu potensial llawn.

Fel ysgol, rydym wedi nodi meysydd blaenoriaeth y dangoswyd eu bod yn llwybrau mwyaf effeithiol lle gall cymorth ychwanegol gael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd academaidd. Mae'r rhain yn cyd-fynd â gwahanol agweddau ar ein gwaith yn ymwneud â hunanwerthuso a chynllunio gwella.

Mae ein cylch hunanwerthuso a gwella yn seiliedig ar y 3 maes blaenoriaeth gwella ysgol canlynol:

- MA 1: Addysgu a Dysgu
- MA 2: Gofal, cefnogaeth a lles
- MA 3: Arweinyddiaeth a Rheolaeth

| **Pwrpas y dyraniad** | **Swm** | **Staffio / Di-staffio** |
|---|---|---|
| Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd [FEO] (20%) | £5,754 | Staffio |
| Swyddog Lles, Cynhwysiant ac Ymyrraeth CA3 (100%) | £35,610 | Staffio |
| Darpariaeth Amgen Cwricwlaidd 'Step 4' (allanol) (50%) | £33,000 | Staffio |
| Darpariaeth Amgen 'Junior Apprenticeship' (100%) | £19,119.31 | Staffio |
| Pecyn Cwricwlwm Amgen ASDAN (mewnol) | £3,516.69 | Di-staffio |
| Cefnogaeth i fentrau Llesiant a Phresenoldeb | £1,600 | Di-staffio |
| Cau'r Bwlch (lwfans y pen) – cyfoethogi a darpariaeth | £6,350 | Di-staffio |
| Cynllun Gwobrwyo ysgol | £2,000 | Di-staffio |
| | **£106,950** | |